Ministry of Justice

**Arglwydd Timpson**,
Gweinidog Gwladol
dros Gyfiawnder

Bwrdd Monitro Annibynnol
CEF/STI Parc
Heol Hopcyn John Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 6AP

**Cyf MoJ:** SUB126681

23 Medi 2025

Annwyl Gadeirydd,

**CARCHAR EI FAWRHYDI / SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC (CEF/STI) PARC: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 EBRILL 2023 – 30 MEDI 2024**

Diolch yn fawr am ddarparu adroddiad blynyddol eich Bwrdd ar CEF/STI Parc. Rwy’n ddiolchgar iawn i chi a’ch cydweithwyr am eich ymroddiad a’ch gwydnwch wrth i chi gofnodi eich arsylwadau defnyddiol. Rwy’n ymwybodol eich bod wedi gorfod gweithredu â llai o aelodau Bwrdd na’r arfer yn ystod y cyfnod adrodd, a bod y niferoedd wedi lleihau eto erbyn diwedd y flwyddyn. Hoffwn ganmol holl aelodau'r Bwrdd am eu cyd-ymrwymiad; rwy’n gobeithio bod y sefyllfa wedi gwella ers hynny a’i bod yn parhau i wella.

Roedd yn ddrwg iawn gen i glywed bod pedwar carcharor ar bymtheg wedi marw yn ystod y flwyddyn adrodd. Er bod un-ar-ddeg o’r marwolaethau hyn wedi digwydd o ganlyniad i achosion naturiol neu ymysg carcharorion hŷn oedd yn cael gofal lliniarol, mae pob marwolaeth sy’n digwydd yn ein gofal yn drychineb ac rwy’n cydymdeimlo’n fawr â theulu a ffrindiau'r rhai sydd wedi marw. Hoffwn sicrhau’r Bwrdd bod yr argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn cael eu cymryd o ddifri.

Rwyf i wedi darllen yr adroddiad yn fanwl ac yn ymwybodol o bryderon y Bwrdd ynglŷn â charcharorion sydd wedi cael eu dedfrydu i garchar er mwyn Gwarchod y Cyhoedd (IPP), yn enwedig pan fo ansicrwydd ynghylch dyddiad rhyddhau’r carcharorion ac effaith eu rhyddhau ar y cyhoedd. Ar hyn o bryd mae tua 70 o garcharorion IPP yn CEF/STI Parc. Mae’n rhaid i Lywodraethwr fynychu pob panel IPP a gynhelir yn CEF/STI er mwyn sicrhau dealltwriaeth dda o gynnydd, a bod modd cymryd camau strategol i fynd i’r afael â'r rhwystrau sydd yn arwain at ymyrraeth/cefnogaeth yn y carchar.

Fel y mae aelodau'r Bwrdd eisoes yn gwybod, mae gan CEF/STI gontract seicoleg gyda’r Forensic Psychology Consultancy (FPC) Ltd. Mae’r contract hwn yn ei gwneud hi’n ofynnol i'r FPC ddarparu rhywfaint o gymorth rheoli achosion i garcharorion IPP. Mae’r contract hefyd yn cynnwys cynnal sesiynau therapi seicolegol un-i-un i leihau aildroseddu. Mewn rhai achosion mae’r sesiynau hyn yn cael eu targedu’n benodol at garcharorion IPP i gefnogi eu cynnydd. Yn ogystal â hyn, mae Partneriaeth Dulliau Adferol Cymru (WRAP) hanner ffordd drwy brosiect dwy flynedd o hyd i gefnogi carcharorion IPP yn y carchar. Gan fod carfan o garcharorion IPP yn CEF/STI, bydd y prosiect hwn yn cynnwys cynnal gwaith penodol yma Mae CEF/STI hefyd yn gweithio gyda’r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai ar y Rhaglen Adeiladu Dyfodol. Mae’r rhaglen hon yn gweithio gyda charcharorion sydd â dedfryd dros ddeng mlynedd, i nodi pa welliannau yr hoffent eu gweld yn y system garchardai.

Ffôn +4420 3334 3555
Ffacs +44870 761 7753

**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj

102 Petty France
London
SW1H 9AJ

Fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol, mae'r Llywodraeth yn benderfynol o gefnogi carcharorion IPP i adsefydlu drwy gynnal Cynllun Gweithredu diwygiedig. Cyhoeddwyd y cynllun hwn ar 15 Tachwedd 2024 fel rhan o’n Hadroddiad Blynyddol ar IPP. Mae'r adroddiad ar gael ar lein ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig.  Ar 31 Mawrth 2025, roedd cyfanswm o 2,544 o garcharorion IPP dan glo. Nid yw 1,012 ohonynt wedi cael eu rhyddhau a chafodd 1,532 ohonynt eu galw’n ôl.

Roedd pryderon mawr yn ystod chwe mis cyntaf 2024, a does dim amheuaeth bod problemau yn dal i fodoli yn CEF/STI Parc, ond roedd yn galonogol dysgu bod y mesurau a gymerwyd i fynd i’r afael â’r mewnlifiad o nwyddau contraband wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr eitemau anghyfreithlon sy’n cael eu canfod a’u hatafaelu.  Roeddwn i hefyd yn falch o ddarllen bod y carchar wedi rhoi Cytundeb Carcharorion ar waith i herio achosion o dynnu coes negyddol a homoffobia a bod system gyfeillio newydd wedi’i sefydlu i groesawu carcharorion LHDTC+ newydd.  Dylid canmol hefyd lansiad y tîm pêl-droed ar gyfer carcharorion LHDTC+, sydd wedi cael cydnabyddiaeth yng Nghymru a’r tu hwnt.

Diolch am eich sylwadau ynghylch mesurau'r Cyfarwyddwr i wneud gwelliannau, ac am gefnogi ei amcanion allweddol.  Mae'r dull cydweithredol sydd ar y gweill gennych chi i gefnogi’r rhain drwy’r gwaith monitro yn galonogol.  Mae sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i ymateb i eiddo carcharorion wedi’u nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Rwyf i a’r Arglwydd Ganghellor yn gwerthfawrogi’r gwaith amhrisiadwy y mae aelodau'r Byrddau Monitro Annibynnol yn ei wneud ledled yr ystâd, ac rwy’n diolch yn fawr i chi ar ran CEF/STI Parc am eich gwaith caled a’ch ymroddiad.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**

# Carchar Ei Fawrhydi/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc (CEF/STI): ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 EBRILL 2023 – 30 MEDI 2024

## Sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar faterion a godwyd yn yr adroddiad

### Eiddo Carcharorion

Rydym ni wedi nodi pryderon y Bwrdd ynghylch y ffordd yr ymdrinnir ag eiddo carcharorion, ac mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wrthi'n ystyried y mater hwn ymhellach. Mater sydd yn aml yn esgor ar ragor o broblemau yw pan fo eiddo carcharor yn cael ei anfon ymlaen pan gaiff carcharor ei drosglwyddo. Yn gyffredinol, ychydig o gwynion a geir am eiddo coll pan fydd cyflenwyr y Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa yn trosglwyddo eiddo yn unol â chyfyngiadau rheoli cyfeintiol Fframwaith Eiddo Carcharorion. Mae hi'n allweddol felly bod yr holl garcharorion yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau rheoli cyfeintiol, oherwydd bydd unrhyw eiddo o fewn y cyfyngiadau hynny yn cael eu trosglwyddo gyda nhw.

Ers y cyfnod adrodd sy'n cael sylw yn yr adroddiad, mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru i sicrhau bod CEF/STI Parc yn cyd-fynd â'r Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion Eiddo yw un o'r prif faterion y mae carcharorion yn cwyno amdano yn CEF/STI Parc, ac felly mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Arwain yn y carchar a'r partïon perthnasol i sicrhau bod y camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.